

**ARCHIF MENYWOD CYMRU  
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES**

**ADRODDIAD TERFYNOL**

**'LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI'**

**Profiadau menywod fu'n gweithio yn y  
diwydiannau gweithgynhyrchu yng  
Nghymru, 1945-1975**

Busen Goflwyd edigR hŷ 1 6-8206



# ADRODDIAD TERFYNOL

## 'LLEISIAU O LAWR Y FFATRI'

### Profiadau menywod fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, 1945-1975

#### ADRAN A:

#### Archif Menywod Cymru:

Sefydlwyd Archif Menywod Cymru (AMC) yn 1997 er mwyn:

- Codi ymwybyddiaeth o hanes menywod yng Nghymru, ac
- Adnabod a diogelu ffynonellau perthnasol i hanes menywod yng Nghymru

I'r perwyl hwn mae AMC yn hyrwyddo achub ffynonellau hanes menywod a'u rhoi ar adnau mewn archifdai sirol acyn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n trefnu cynadleddau a digwyddiadau i drafod a chyflwyno hanes menywod yng Nghymru. Mae'n cydweithio mewn partneriaeth a mudiadau fel Llafur: Cymdeithas Hanes Pobl Cymru; *West of England and South Wales Women's History Network*; a Phrifysgol Bangor - y cwrs M.A. Astudiaethau Menywod.

Rhwng 2007 ac 2009, yn sgil derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, trefnodd AMC 17 o Sioeau ar Daith ar hyd a lled Cymru i annog pobl i ddod i ddangos unrhyw ddogfennau neu ffotograffau oedd ganddynt yn ymwneud a hanes menywod a chael barn arbenigwyr ar eu harwyddocad hanesyddol. O ganlyniad, rhoddwyd nifer o'r dogfennau hyn ar adnau mewn archifdai perthnasol a sganiwyd y gweddill (rhyw 1000 o eitemau) i'w harddangos ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

#### Cefndir y prosiect 'Lleisiau o Lawr y Ffatri':

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith AMC ar 29 Mehefin, 2012 penderfynwyd y byddai casglu profiadau menywod a fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi'r Ail Ryfel Byd yn brosiect hanesyddol, pwysig y gallai'r Archif ymgymryd ag ef. Yn sgil hynny, sefydlwyd Is-grwp i ymchwilio ymhellach a phenderfynwyd cynnal cynllun peilot i brofi dichonoldeb y pwnc. Cynhaliwyd y cynllun peilot hwnnw yn ystod hydref 2012, pryd y recordiwyd naw menyw a fu'n gweithio mewn naw ffatri wahanol yn ne Cymru, rhwng 1945 ac 1975.

Gwnaethpwyd adysgrifau o'r cyfweiliadau, casglwyd lluniau a dogfennau perthnasol a thynnwyd lluniau'r siaradwyr. Ar derfyn y prosiect cyflwynwyd pecyn cyfansawdd o'r

defnyddiau a gasglwyd i Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Paratowyd adroddiad yn gwerthuso'r prosiect.

## **Rhesymwaith academaidd**

Yn ystod cyfnod y cynllun peilot, yng nghynhadledd flynyddol AMC yn y Fenni, 2012, traddododd yr Athro Deirdre Beddoe ddarlith yn disgrifio ac yn dadansoddi arwyddocad y diwydiannau gweithgynhyrchu i economi Cymru yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd a rol allweddol menywod ynddynt. Rhoddodd y ddarlith hon, ynghyd a'i phennod hi ar y pwnc yn ei chyfrol *Out of the Shadows* (Caerdydd, GPC, 2000), y cynllun peilot ar sylfeini academaidd cadarn. Nodwyd yn ogystal nad oedd llawer o waith ymchwil wedi'i wneud i'r pwnc hwn hyd yn hyn a bod gwir angen cyflawni hynny ar fyrder.

## **Y CAIS**

Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot anfonwyd cais am gefnogaeth ariannol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yng ngwanwyn 2013. Seiliwyd y cais hwn ar y rhesymwaith canlynol:

### **Rhesymwaith:**

- Bod hanes menywod, yn enwedig menywod cyffredin, yng Nghymru wedi cael ei anwybyddu a'i esgeuluso yn y gorffennol. Byddai'r prosiect hwn yn gymorth i lenwi bwlch pwysig yn ein gwybodaeth am fywydau menywod yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.
- Bod y menywod hyn wedi chwarae rhan allweddol bwysig yn cynnal a chefnogi economi Cymru yn y cyfnod dan sylw, pan oedd y diwydiannau trymion - glo a dur yn arbennig, dan warchae ac yn dirywio. Byddai'r prosiect hwn yn caniatáu inni ddathlu eu cyfraniad a'i werthfawrogi.
- Byddai'r prosiect yn cwmpasu Cymru gyfan, yn rhychwantu cyfnod o'r pedwardegau i'r saithdegau ac yn cynnwys amrywiaeth eang o ffatri'oedd gwahanol, mawr a bach, trefol a gwledig, a oedd yn cynhyrchu amrediad rhyfeddol o nwyddau o decstilau a dillad i fatris, o beiriannau golchi i ffrwydron.
- Mai trwy gyfrwng hanes llafar (yn Gymraeg ac yn Saesneg) yn unig y gellid ymgynraedd at y dystiolaeth hon, a chyplysu hynny a chasglu ffotograffau a dogfennau perthnasol, gan achub a diogelu archifwerthfawr iawn at y dyfodol.
- Bod angen cyflawni'r gwaith hwn ar fyrder, gan fod mwyafrif y ffatnoedd gweithgynhyrchu a adnabuwyd wedi cau; a bod rhai o'r siaradwyr posibl dros eu nawdegau a llawer o'r gweddill wedi hen ymddeol.

### **Amcanion y prosiect:**

- Creu archif genedlaethol o 150 - 200 o hanesion llafar yn cofnodi profiadau menywod a fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru rhwng 1945-75
- Adysgrifio'r cyfweiliadau hyn
- Casglu ffotograffau a dogfennau perthnasol i'w sganio'n ddigidol
- Creu metadata manwl o'r holl adnoddau
- Adnabod a hyfforddi gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r recordio a'r adysgrifio
- Creu nifer o arddangosfeydd o'r adnoddau uchod i'w gosod mewn canolfannau priodol ledled Cymru
- Sicrhau bod yr holl adnoddau a gesglid yn cael eu rhoi ar adnau yn enw AMC yn Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru
- Cyflawni'r amcanion hyn o fewn blwyddyn (2013-14) yn unol a chynllun manwl y prosiect.

I'r perwyl hwn byddem yn:

- Penodi dau Swyddog Maes i weithio yng ngogledd a de Cymru.
- Sefydlu Grwp Rheoli Prosiect (GRHP) i fonitro ac adolygu cynnydd y prosiect; byddai Cydlynnydd y Prosiect yn aelod o'r grwp hwn.
- Adnabod a hyfforddi 20-25 o wirfoddolwyr i helpu gyda'r cyfweld a'r cofnodi.

### **Cyllid:**

Yn ystod Ebrill 2013 cyflwynodd Pwyllgor Gwaith AMC gais am £65,100 yn seiliedig ar yr amcanion uchod i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Byddai'r gyllideb hon yn cynnwys costau recriwtio; ffioedd y Swyddogion Maes a'u costau; arian tuag at hyfforddiant a chostau gwirfoddolwyr; offer; costau hyrwyddo a chyhoeddusrwydd; a chostau arfarniadau ac adroddiad terfynol.

Yn unol a gofynion CDL disgwyliid i AMC gyfrannu £3,000 mewn arian at y gyllideb hon. Gwnaethpwyd sawl cais am nawdd trwy ysgrifennu at ffathoedd ac undebau llafur. Llwyddwyd i ddenu'r nawdd angenrheidiol o £3,000 gan yr Ashley Family Foundation.

### **The Ashley Family Foundation**

Anfonwyd cais cychwynnol at yr Ashley Family Foundation yn ystod haf 2013 a gofynnwyd i ni, ar sail hynny, gyflwyno cais llawn. Gwnaethom hynny gan ddadlau y byddai'r prosiect o ddiddordeb arbennig i'r sefydliad oherwydd bod cymaint o'r menywod y bwriadem eu cyfweld wedi gweithio yn y *rag trade* yn cynhyrchu dillad o bob math a thecstilau. Byddem yn cyfweld a menywod fu'n gweithio yn ffatri'oedd Laura Ashley yng Ngharno a'r Drenewydd yng nghanolbarth Cymru.

Cawsom glywed ym mis Tachwedd ein bod wedi sicrhau grant o £3,000 ac rydym yn dra diolchgar i'r sefydliad am ei gefnogaeth. Bellach rydym wedi llwyddo i recordio

pum menyw a fu'n gweithio i'r cwmni hwn a byddwn yn llunio is-adroddiad iddo ar derfyn y prosiect.

#### **Nawdd ychwanegol:**

Llwyddwyd i sicrhau nawdd ychwanegol gan ddau undeb llafur:

- £500 gan Community Union
- £500 gan Unite

Sicrhawyd y nawdd hwn trwy gefnogaeth uniongyrchol Edwina Hart, MBE, AC, y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Chludiant yn Llywodraeth Cymru.

Derbyniwyd rhodd o £200 yn ogystal trwy Dreftadaeth Jazz Cymru i dalu am ddefnydd cwmni Like an Egg Co. o ddarn ffilm ar gyfer cyflwyniad ar y Manic Street Preachers.

Ar hyn, yn ystod ein Cynhadledd Flynyddol yn 2013, cyfrannodd aelodau AMC £933.75 (yn cynnwys Rhodd Cymorth) tuag at sicrhau dechrau'r prosiect yn brydlon, gan ddangos eu hymrwymiad i'r prosiect..

O'r herwydd gosodwyd ein prosiect ar seiliau ariannol cadarn o'r dechrau'n deg.

#### **Cefnogaeth mewn da:**

Sicrhawyd cefnogaeth mewn da gan:

- Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru (cyngor, cartref i'r prosiect terfynol)
- Casgliad y Werin, Cymru (cyngor a hyfforddiant technegol)
- Archifdy Morgannwg (ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd y GRhP, cyfweiliadau, hyfforddiant y de-ddwyrain a recordio siaradwyr)
- Llyfrgell Glowyr De Cymru, Abertawe (ystafell ar gyfer cyfarfodydd y GRhP, cyfweiliad a chwrs hyfforddiant y de-orllewin)
- Prifysgol Bangor (ystafell ar gyfer cwrs hyfforddi'r gogledd a lleoliad ar gyfer arddangosfeydd a darlith yn ein Cynhadledd Flynyddol)
- Gofod ar gyfer arddangosfeydd mewn llyfrgelloedd, archifdai, canolfannau hamdden ac amgueddfeydd

Mae hyn wedi cyfrannu cyfraniad cyfwerth a £1,260 mewn cefnogaeth mewn da.

Cyfrifir gwaith ein gwirfoddolwyr, boed mewn pwyllgor, yn cynnal hyfforddiant, yn cyfweled siaradwyr neu'n adysgrifio, fel amser mewn da hefyd. Rydym yn cofnodi a chryn falchder i'n gwirfoddolwyr gyfrannu, hyd at ddiwedd Chwefror 2015, gyfanswm o 1257 awr (sef 167 diwrnod) o waith gwirfoddol mewn da (cyfwerth a £25,050 mewn arian) tuag at y prosiect hwn.

## **Rheolaeth y prosiect:**

Sefydlwyd is-grwp o chwech o blith Pwyllgor Gwaith AMC, sef y Grwp Rheoli Prosiect (GRhP) i redeg y prosiect hwn ar ran yr Archif. Roedd Cadeirydd (Jenny Sabine), Ysgrifennydd (Avril Rolph) a Thrysorydd (Gail Allen) cyfredol AMC yn aelodau ohono, ynghyd a thair aelod (Rosemary Scadden, Caroline Fairclough a Catrin Stevens) a fu'n rhedeg y cynllun peilot. Cymerodd Catrin Stevens at rol Cydlynnydd y Prosiect. Roedd y GRhP yn adrodd yn ol yn rheolaidd ar gynnydd y prosiect i gyfarfodydd Pwyllgor Gwaith AMC.

Cyfarfu'r GRhP saith o weithiau yn ystod 2013-14 (sef Awst 28, Rhagfyr 12, Chwefror 27, Mai 8, Gorffennaf 16, Medi 10) a mynychodd y Swyddogion Maes y cyfarfodydd hyn hefyd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn derbyn adroddiadau ystadegol a naratif rheolaidd i fonitro'r sefyllfaoedd cyfredol, yn gweinyddu'r cyllid ac yn cynnig cefnogaeth gyffredinol i'r swyddogion. Treuliodd aelodau'r GRhP lawer iawn o oriau gwirfoddol yn mynychu'r cyfarfodydd, yn cadw cofnodion, yn gweinyddu'r gyllideb ac yn cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i'r swyddogion. Roedd yr oriau gwirfoddol hyn dros 80% o'r 1257 o oriau a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr i sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn esmwyth a'i fod yn cwrdd a'i holl dargedau.

## **Penodi Swyddogion Maes:**

Treuliwyd misoedd haf 2013 yn hysbysebu am Swyddogion Maes acyn gwneud ymchwil cefndirol i'r ffatri'oedd a oedd yn bodoli yng Nghymru yn y cyfnod dan sylw. Dangosodd yr ymchwil hwn fod tua dwy ran o dair o'r ffatri'oedd hyn wedi'u lleoli ar ystadau diwydiannol mawr yn ne Cymru, yn arbennig felly yng nghymoedd y de-ddwyrain ac yn ardal Abertawe a Chastell-nedd. Yn y gogledd roedd llawer o'r ffatri'oedd yn ardal Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.

Ein bwriad, yn ein cais gwreiddiol i CDL oedd penodi dau Swyddog Maes, y naill i weithio yn y de a'r llall yn y gogledd. Fodd bynnag, yn sgil yr ymchwil uchod, penderfynwyd penodi tri swyddog i wasanaethu'r de-ddwyrain, y de-orllewin a'r gogledd. Cytunodd swyddog CDL a'n cais i newid ffiniau'r swyddi fel hyn. Y penderfyniad oedd cynnig ffioedd llawrydd i dri swyddog gwahanol, gan gadw at y swm a gytunwyd ar gyfer cyflogau yn ein ffurflen gais. Gan fod pen trymaf y gwaith recordio yn mynd i fod yn y de-ddwyrain, penderfynwyd cynnig hanner y ffi ddynodedig i swyddog y de-ddwyrain a chwarter y ffi yr un i'r ddau swyddog arall.

Cafwyd 58 o geisiadau am y swyddi hyn, cafodd naw ymgeisydd eu cyfweld a llwyddwyd i benodi tri swyddog: Catrin Edwards (y de-ddwyrain); Susan Roberts (y de-orllewin) a Kate Sullivan (y gogledd). Roeddent ill tair yn ymgeiswyr cryf iawn, gyda blynyddoedd o brofiad gwaith - o gynhyrchu rhaglenni teledu, i sgrïptio a chyfieithu'n broffesiynol a gweithio fel ymchwilwyr ac academyddion. Roedd y tair hefyd yn hyddysg yn hanes menywod yng Nghymru ac yn ddwyieithog. Roeddent, felly, yn ddelfrydol ar gyfer y gwaith o gyfweld menywod cyffredin am eu bywydau a'u gwaith yn y diwydiannau gweithgynhyrchu. Roedd ganddynt brofiad o weithio'n

llawrydd ac o drefnu'u gwaith yn annibynnol ac yn broffesiynol. Dechreuodd y tair ar eu gwaith ddiwedd Hydref 2013, gan weithio o'u cartrefi.

Y cam cyntaf oedd cynnal sesiwn ddeuddydd i hyfforddi'r staff newydd ac i sefydlu gweithdrefnau cydlynol a chyson ar draws y tair ardal. Cynhaliwyd y sesiynau hyn yn Archifdy Morgannwg ar 17-18 Hydref, 2013. Cafwyd sesiynau ar Hanes Menywod gan yr Athro Deirdre Beddoe, ar Hanes Llafar gan Rosemary Scadden a Catrin Stevens a sesiwn ar yr offer a'r dulliau o gadw metadata gan Berian Elias o Gasgliad y Werin Cymru.



Kate Sullivan (swyddog maes y gogledd) Susan Roberts (y de-orllewin), Catrin Edwards (y de-ddwyrain) a'r Athro Deirdre Beddoe yn ystod yr hyfforddiant staff

## **Gweithredu'r Prosiect:**

Penderfynwyd o'r dechrau y byddem yn mabwysiadu'r teitl 'Lleisiau o Lawr y Ffatri / *Voices from the Factory Floor*' fel teitl poblogaidd ar gyfer ein prosiect newydd gan ei fod yn fwy hwylus na'r teitl manwl: 'Profiadau menywod fu'n gweithio yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, 1945-75 / *The experiences of women who worked in the manufacturing industries in Wales, 1945-1975*' a oedd yn ein cais gwreiddiol i CDL. Y mae hefyd yn fwy dealladwy i'r menywod y gobeithiem eu cyfweled ac yn dweud yn glir beth roddem yn gobeithio ei wneud. At hyn mae'n gweithio'n ardderchog o safbwynt y Gymraeg a'r Saesneg.

## **Adnabod cyfweleion:**

Ar gyfer rhedeg cynllun peilot y prosiect roddem wedi ysgrifennu at Media Wales yn gofyn am gymorth i adnabod cyfweleion yn ne Cymru ac ymddangosodd y llythyr mewn papurau fel y *South Wales Echo* a'r *Merthyr Express* yn Hydref 2012. Cafwyd deunaw galwad ffon yn sgil hyn a chyfwelwyd a chwech o'r rhain ar gyfer y cynllun peilot ei hun. Roedd hyn yn gadael 12 o gyfweleion posibl ar gyfer y prosiect llawn, newydd. Adnabuwyd siaradwyr y de-orllewin trwy gysylltiadau personol o ben i ben.

Defnyddiwyd llu o ddulliau gwahanol i geisio adnabod y 150-200 o siaradwyr ar gyfer y prosiect hwn. Anfonwyd llythyron i bapurau newydd ledled Cymru; cynlluniwyd

posteri yn hysbysebu'r prosiect yn y de-ddwyrain; bu'r swyddogion yn siarad ar y cyfryngau; gwnaethpwyd ymchwil trwy'r rhyngrwyd; traddodwyd sgysiau i gymdeithasau hanes lleol, clybiau henoed, cymdeithasau menywod a.y.b.; cafwyd adroddiadau rheolaidd yng nghylchlythyr AMC ac ar y wefan; hysbysebwyd trwy gapeli ac eglwysi a defnyddiwyd rhwydweithiau cymdeithasol a chysylltiadau anffurfiol personol.

Profodd rhai ardaloedd yn haws eu treiddio nag eraill. Roedd ffynhonnell barod o siaradwyr fu'n gweithio yn FfatrToedd Anglo-Celtic yn Ystradgynlais, Mettoys/ Louis Marx yn Fforest-fach; Poliakoff, Treorci; Nylon Spinners, Pontypwl a Courtaulds, Flint. O safbwynt y cwmni olaf hwn, a fu'n allweddol o safbwynt cyflogi menywod yn y gogledd-ddwyrain, cafwyd cryn drafferth i ddarganfod siaradwyr yn yr ardal hon yn wreiddiol, ond yn y pendraw recordiwyd pum cyfweiliad. Yn yr un modd, roedd darganfod siaradwyr yn ardal Casnewydd yn y de-ddwyrain ac yn ne sir Benfro yn fwy o her na'r disgwyl, ond llwyddwyd i oresgyn y problemau hyn wrth i'r prosiect fynd rhagddo a dod yn fwy hysbys. Penderfynwyd y gellid cyfiawnhau recordio nifer o siaradwyr y rai o'r ffatrioedd mwy gan fod gan bob un ei stori ei hun i'w hadrodd a'u bod yn adlewyrchu cyfnodau gwahanol, ac yn fynych wedi cyflawni swyddogaethau gwahanol yn eu gweithleoedd.

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan, er, wrth reswm, o ystyried oedran y cyfweleion posibl, gallai anhwylderau annisgwyl darfu ar y paratodau a byddai rhai yn newid eu meddyliau, ar ol cytuno i gael eu recordio, am resymau personol.

#### **Y Ffatrioedd:**

Sicrhawyd cyfweleion o amrediad eang o ffatrioedd gwahanol, a oedd yn cynhyrchu amrywiaeth eang iawn o nwyddau. Roedd ffatrioedd tecstilau a gwneud dillad fel Slimma, Poliakoff, Kaiser Bondor, Courtaulds a Laura Ashley yn dominyddu ac yn cyflogi miloedd lawer rhyngddynt ond roedd menywod yn gweithio mewn ffatrioedd diwydiant trwm hefyd: ym Morris Motors, Llanelli; Curran's, Caerdydd; a Cookes Explosives Ltd, Penrhyndeudraeth. At hyn aethpwyd ar drywydd ffatrioedd llai, fel Hufenfa wledig Pont Llanio, Sir Aberteifi; Deva Dogware, Gwynfe; a Ffatri Wlan Glyn Ceiriog. Y nod oedd ceisio cwmpasu cymaint o ffatrioedd amrywiol a phosibl. Cyfanswm y ffatrioedd gwahanol oedd 208.

#### **Yr Offer:**

Cysylltwyd ag arbenigwyr ar hanes llafar yng nghymdeithas *Oral History* i ofyn am gyngor ynglyn a'r offer gorau i'w brynu. Dilynwyd y cyngor hwnnw a phrynwyd 5 peiriant recordio digidol Marantz PMD661 MK11 a 5 Meicroffon Sony EMCMS907.CE7, ynghyd ag ategolion angenrheidiol eraill. Profodd y rhain yn ddelfrydol ar gyfer y dasg o gofnodi cyfweiliadau'r prosiect. Caniataodd CDL i ni brynu un recordydd digidol a meicroffon arall (yn ychwanegol at y pedwar yn y cais gwreiddiol) er mwyn hwyluso gwaith y Swyddog Maes ychwanegol.

Defnyddiodd y Swyddogion fyrddau arddangos AMC ar gyfer eu harddangosfeydd gan arbed gwariant pellach.

#### **Y Cyfweiliadau:**

Gosodwyd targed o gyfswm a rhwng 150 a 200 o fenywod ar ddechrau'r prosiect. Rhannwyd y targed hwn rhwng Swyddog Maes y de-ddwyrain - 70 cyfweiliad; swyddog y de-orllewin - 35 cyfweiliad a swyddog y gogledd - 35 cyfweiliad - cyfanswm posibl o 140 cyfweiliad. (Gweler Adran B am gyflawniadau'r targedau hyn). I gyrraedd y nod o tua 200 o gyfweiliadau byddai gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi ac yn cyfrannu rhwng 20 a 60 o gyfweiliadau. Cyrhaeddwyd y targed hwn - gyda chyfraniadau amhrisiadwy gwirfoddolwyr ym mhob rhanbarth a recordiwyd 54 cyfweiliad ganddynt. Llwyddwyd i recordio 210 o gyfweiliadau i gyd.

Er ein bod yn canolbwyntio yn bennaf ar gyfswm menywod a fu'n gweithio 'ar y lein' ar lawr y ffatri, penderfynwyd hefyd y byddai'n fuddiol cael tystiolaeth lafar gweithwyr swyddfa, ac aelodau o'r staff rheoli a'r adrannau adnoddau dynol. Llwyddwyd hefyd i adnabod ac i recordio menywod o leiafrifoedd ethnig, yng Nghaerdydd yn benodol, ac fe'u recordiwyd ar gyfer y prosiect. Recordiwyd atgofion nyrs ddiwydiannol yn ogystal. Recordiwyd nifer o fyfyrwyr a fu'n gweithio yn ystod eu gwyliau neu dros dro yn y ffatri'oedd hyn hefyd, gan eu bod yn cynnig persbectifau gwahanol a dadansoddiadau diddorol o'u profiadau. At hyn, gofynnwyd i rai dynion a fu'n cydweithio a merched y ffatri'oedd, gronico'u hargraffiadau hwythau, a chafwyd ganddynt ddarluniau amgen a gogwyddau gwahanol eto ar fywyd ar lawr y ffatri.

O blith y cyfanswm cyfweiliadau roedd 60 yn siaradwyr Cymraeg a recordiwyd hwy yn eu mamiaith. Deuai'r rhain o'r de-orllewin ac o'r gogledd-orllewin. Roedd yn ddiddorol sylwi bod eu Cymraeg yn fynych yn frith o eiriau Saesneg pan fyddent yn trafod eu gwaith, ac yn enwedig pan fyddent yn cyfeirio at offer technegol neu dechnegau a manylion y gwaith, er nad oeddent hwy yn sylweddoli hynny gan amlaf.

Er bod teitl y prosiect hwn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1945 a 1975, nid oedd yn ymarferol bosibl, nac yn wir yn synhwyrol, i gyfyngu'n siaradwyr at y dyddiadau hyn, gan nad oedd eu hamserau hwy yn eu gweithleoedd yn cyd-redeg a'n dyddiadau ni. Y mae rhai siaradwyr felly wedi'n tywys yn ol i ddechrau'r 1940au ac i'r ffathoedd adeg yr Ail Ryfel Byd, ac eraill wedi'n harwain ymlaen at yr wythdegau a'r newidiadau mawr mewn materion yn ymwneud a rheoliadau iechyd a diogelwch er enghraifft, a thai cyfartal am waith cyfartal, a welwyd yn ystod y degawdau wedi 1970. Teimlwn fod hyn wedi cyfoethogi'r prosiect ac yn cynnig darlun mwy cynhwysfawr o brofiadau menywod yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Roeddem yn sicrhau bod pob cyfweilai yn llenwi ffurflen hawlfraint a fyddai'n caniatáu 1 ni ddefnyddio'r cyfweiliad yn unol a'u dymuniad hwy yn unig.

### **Adysgrifau:**

Er hwyluso defnyddio'r cyfweiliadau a recordiwyd, penderfynwyd trawsysgrifio pob cyfweiliad air am air. Fodd bynnag, ar ol pum mis o ddilyn y trywydd hwn, penderfynwyd mewn pwyllgor o'r GRhP nad oedd hyn yn ymarferol bosibl gan ei fod yn llyncu amser ac y byddai'n rheitiach ei ddefnyddio i gwblhau rhaglen y cyfweiliadau. O'r herwydd cytunwyd y byddem yn llunio adysgrifau neu adroddiadau llawn o'r cyfweiliadau, gan gofnodi darnau arbennig o ddiddorol air am air o hyd. Hwylusodd hyn y broses o baratoi adysgrifau yn fawr. Mae'r adysgrifau hyn wedi'u hargraffu yn llawn ac yn llenwi 6 ffeil A4 swmpus.

### **Gwirfoddolwyr:**

Gosodwyd nod, yn unol ag amcanion CDL, i ddefnyddio gwirfoddolwyr i'n helpu i gyrraedd ein targedau. Felly aethpwyd ati trwy gylchlythyron AMC, ein Cynhadledd Flynyddol, ein gwefan, gwefannau cymdeithasol a thrwy gysylltiadau personol i apelio am gymorth. Ymatebodd 28 ond oherwydd amgylchiadau personol bu'n rhaid i rai dynnu'n ol. Fodd bynnag, mynychodd 18 ein cyrsiau hyfforddi (gweler Adran B), a chafwyd sesiynau buddiol ar hanes llafar, cefndir y prosiect a hyfforddiant technegol. Y nod a osodwyd i'r gwirfoddolwyr yn ein cais gwreiddiol oedd iddynt gyfweled c.20-60 o fenywod, cyfartaledd o 2 yr un oedd y gobaith. Fodd bynnag llwyddodd ein gwirfoddolwyr i gyfweled 54 o siaradwyr gan gyrraedd y nod yn gyfforddus. Yn hyn o beth rhaid nodi cyfraniad amhrisiadwy Wena Grant, a recordiodd 11 o siaradwyr y gogledd-ddwyrain rhwng Mai ac Awst 2014. Mawr yw ein dyled iddi. Mae cyfran dda o'r gwirfoddolwyr hyn a gwirfoddolwyr eraill wedi adysgrifio cyfweiliadau'r prosiect hefyd. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i bob un o'n gwirfoddolwyr; rydym yn gwerthfawrogi'u cymorth a'u hymrwymiad yn fawr iawn. Maent wedi ein helpu i lenwi bylchau ac i adnabod siaradwyr newydd i'r prosiect. Mae eu cyfraniadau wedi ychwanegu'n sylweddol at gyfanswm yr oriau a'r amser mewn da a dreuliyd ar y prosiect hwn.



Kate Sullivan (Swyddog Maes y gogledd) yn hyfforddi gwirfoddolwyr y gogledd - Wena Grant, Val Wakefield (cefn), Shan Robinson a Sue Trevelyan-Jones

## **Sganio ffotograffau a dogfennau**

Penderfynwyd y byddem yn gofyn i bob cyfwelai a oedd ganddynt ffotograffau a dogfennau y gallem eu cop'i'o trwy eu sganio yn ddigidol. Clywsom droeon, er hynny, 'Dylech fod wedi gofyn ryw ddeng mlynedd yng nghynt, dwi wedi taflu llawer o hen luniau.' Dengys hyn pa morfregus yw'r defnyddiau hyn a pha mor amserol oedd y prosiect hwn, oherwydd llwyddwyd i sganio 400-500 o luniau a dogfennau - eitemau a fyddai, mae'n bosibl, wedi mynd i'r bin sbwriel heb ein hymyrraeth. Ymhlith y ffotograffau roedd hi'n amheuthun darganfod lluniau o fenywod ar lawr y ffatri yn ogystal a llu o ffotograffau o ddigwyddiadau cymdeithasol, fel part'i'on Nadolig. Roedd dogfennau yn brinnach ond cafwyd ambell slip neu becyn pae a llawlyfrau cwmni'au arbennig.

Petai cyfwelai yn fodlon rhoi'r ffotograffau a'r dogfennau hyn ar adnau i archifdy, roedd gennym ein gweithdrefnau yn eu lie, trwy Bwyllgor Gwaith AMC. O safbwynt y sganiau, roeddem yn llenwi ffurflenni gwybodaeth am bob un, a oedd yn nodi pwy oedd perchen yr hawlfraint, ynghyd a ffurflenni perthnasol Casgliad y Werin Cymru. Defnyddiwyd y lluniau yn helaeth yn ein harddangosfeydd.

### **Metadata:**

Sefydlwyd cyfundrefn yn ystod y cwrs hyfforddi staff ar ddechrau'r prosiect, i sicrhau bod y tair Swyddog Maes yn defnyddio'r un system ar gyfer eu metadata a chytunwyd ar godau adnabod cyson (gogledd: VN ... [Voices North]; de-ddwyrain VSE ... a de-orllewin VSW ...) i gadw cofnod manwl o'r cyfweiliadau, yr adysgrifau, y ffotograffau, y dogfennau a'r ffurflenni perthnasol. Bydd hyn yn hwyluso unrhyw ymchwil i'r prosiect yn y dyfodol yn fawr.

## ADRAN B

### Adroddiadau'r Swyddogion Maes

#### Adroddiad Swyddog Maes y De-ddwyrain: Catrin Edwards

Ar Hydref 18fed 2013, cynhaliwyd cwrs hyfforddi ar ein cyfer ni'r swyddogion yn *Archif Morgannwg* - dau ddiwrnod llawn gwybodaeth a difyrrwch. Cafwyd cyflwyniad penigamp gan gydlynnydd y prosiect Catrin Stevens, a sgwrs ysbrydoledig am hanes a gwaith menywod yn y ffatrioedd gan yr Athro Deirdre Beddoe. Yn ystod y deuddydd, cefais gyfle i ddechrau dod i adnabod fy nghyd-swyddogion, Susan Roberts a Kate Sullivan, a chychwyn ar berthynas ffrwythlon.

Berian Elias o *Gasgliady Werin, Cymru* oedd yn gyfrifol am ein hyfforddiant technegol trylwyr, a daeth y tair ohonom mas i'r goleuni ar ddiwedd yr ail ddiwrnod yn gafael mewn peiriant recordio digidol Marantz sgleiniog du, cwlfyn o dechnoleg newydd sbon nefolaidd! 'Roeddem yn ysu i fynd ymaith a chychwyn recordio'r mynydd o gyfweiliadau oedd o'n blaenau.

Yn ffodus iawn, 'roedd fy nghyfweliad cyntaf gyda Rita Spinola o Grangetown. Mae Rita wedi hen arfer cyfweld ag aelodau o'i chymuned a'u recordio ar gyfer *Cymdeithas Hanes Lleol Grangetown* ac 'roedd hi'n hael iawn ei chyngor. Siaradodd yn huawdl a thoreithiog am y blynyddoedd y bu'n gweithio yn ffatrioedd dillad a lledr y brifddinas. Ar ol y cyfweliad cefais wahoddiad ganddi i ymweld a'r gymdeithas hanes i siarad am y prosiect. Cefais wrandawriad da a chyfle i drefnu recordio mwy o gyfweiliadau gyda rhai o'r aelodau a fu'n gweithio mewn ffatrioedd ar draws y brifddinas - Frances Francis o ffatri sigars *JR Freeman*, Janet Taylor o *Guest, Keen & Nettlefolds (GKN)* a Jill Williams o *Gripoly Mills*, Sloper Road.

Gyda mis Tachwedd yn prysur ddiplannu, 'roedd hi'n bryd trefnu'r cwrs hyfforddi ar gyfer y gwirfoddolwyr.



Cwrs hyfforddi gwirfoddolwry de-ddwyrain: Jayne Sandells (arychwith) ac Amy Morris

Daeth chwech ohonynt i *Archif Morgannwg* ar Ragfyr 6ed. 'Roeddent yn griw deallus ac yn gyflym i ddeall hanfodion a gofynion hanes llafar, y broses o gysylltu'r

offer a bod yn barod i recordio. Ond er i'r cwrs fynd yn dda iawn, 'roeddwn i'n pryderu. Byddai wythnosau wedi mynd heibio cyn iddynt gael cyfle i ddefnyddio'r peiriannau eto. Beth petaent wedi anghofio'r cwbl? Es i ati, gyda rhai o'r gwirfoddolwyr, Amy Morris, Lauren Orme a Glen Biseker, sy'n aelodau o gwmi animeiddio addysgiadol *Winding Snake*, i greu 'llawlyfr' ar-lein ac arffurf pdf. Byddai'r llyfryn ar gael drwy e-bost neu ar-lein i atgoffa'r gwirfoddolwyr sut i osod a defnyddio'r offer pan ddelai eu cyfle. Profodd i fod yn ddefnyddiol iawn!

Diolch i Catrin Stevens, y cydlynnydd, am roi rhestr o gyfweleion i fi ar ddechrau'r prosiect. Bu'r blaenrestr yn werthfawr iawn ac fe alluogodd i fi gyfweled a 13 o fenywod yn ystod mis Tachwedd.

Erbyn dechrau Rhagfyr, 'roedd hi'n stori wahanol. Daeth hi'n amlwg y byddai'n rhaid gohirio nifer o'r cyfweiliadau a drefnwyd cyn y Nadolig, oherwydd salwch ymysg y cyfweleion ynghyd a phanig tymhorol ac ymweliadau gan aelodau o'u teuluoedd. Oherwydd prysurdeb yr wyl ni fu'n bosib adrefnu cyfweiliadau tan y flwyddyn newydd.

Wedi'r Nadolig daeth gwahoddiad gan Annie Owens, cadeirydd *Cymdeithas Hanesyddol Gelli-gaer*, i siarad am brosiect *Leisiau o Lawry Ffatri* yn ei chynhadledd flynyddol ar ddiwedd mis Mawrth. Cynigwyd lie hefyd i *Archif Menywod Cymru* osod stondin ar ddiwrnod y gynhadledd - cyfle i ni arddangos rhai o'r lluniau a'r hanesion a gasglwyd.



*Sgwrs i Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Hanesyddol Gelli-gaeryn Llancaeath Fawr*

'Roedd yr ymateb yn wefreiddiol, gydag aelodau o'r gynulleidfa'n porthi ac yn cytuno gydag atgofion y menywod a bortreadwyd. Ar ol y sgwrs cefais gyfle i siarad a nifer ohonynt ac ychwanegwyd yn helaeth at fy rhestr o gyn-weithwyr i'w cyfweled. Yn ogystal, derbyniais wahoddiad i fynd i *Gymdeithas Hanesyddol Fleurde Lys* i siarad am y prosiect.

Y cyfnod rhwng y flwyddyn newydd a'r Pasg oedd y cyfnod mwyaf llewyrchus a chynhyrchiol o ran cyfweiliadau. Recordiwyd 46 o gyfweiliadau i gyd cyn Gwener y Groglith yn cynnwys 5 gan y gwirfoddolwyr - dau gan Jayne Sandells ac un yr un

gan Amy Morris, Mandi O'Neill a Beth Jenkins. Ond erbyn diwedd mis Ebrill, 'roedd y rhestr wreiddiol yn dirwyn i ben a finne'n gorfod chwilio am gyfranwyr newydd.


'Roeddwn yn ymwybodol mod i heb gyfweid a menywod o ardal Pen-y-bont a chymoedd Maesteg yn y gorllewin ac ardal Casnewydd yn y dwyrain. Y cam cyntaf oedd creu cyhoeddusrwydd - poster i a phamffledi - yn apelio am fwy o gyfranwyr.

ARCHIF MENYWOD CYMRU  
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

Fenywod Cymru • Women of Wales

Mae ARCHIF MENYWOD CYMRU eisau siarad gyda menywod fu'n gweithio mewn ffatrioedd fel rhan o'u prosiect hanes Malar a Ariennir Gan y Loteri

11EISIAU 01 VOICES FROM  
IAWR Y FFATRI I THE FACTORY FLOOR



Fuoch chi'n gweithio neu ydych chi'n adnabod menywod fu'n gweithio mewn ffatrioedd rhwng 1945 a 1975?  
Oes gaddnoch chi ffotograffau neu ddogfennau eraill o'r cyfnod fuoch chi'n gweithio mewn ffatri?

Hoffwn i siarad gyda chi!  
Am fwy o wybodaeth cysylltwch A:  
Catrin Edwards ar 029 2045 7211 / 07534 586 248  
ID n e U catrin.bydysawd@btinternet.com /

L f a j j t e

MM AAM Menywod Cymru yn MMX NMM-MKand Aanh. Wan II - cygnatid .eddy masoo DM 00074

Anfonwyd y poster i a'r taflenni at ganolfannau *Age Concern Cymru* ym Mhen-y-bont a Phort Talbot ac i Ganolfannau Cymunedol fel *Awely Mor*, Porthcawl. Rhoddwyd apel a thaflen ddigidol ar wefan *Age Cymru Gwent* ac ar ol cwrdd a siarad a Rhian Connick, Pennaeth *Sefydliady Merched* yng Nghymru, danfonwyd apel mas yn eu cylchlythyr. Cefais nifer o alwadau ffon yn deillio'n uniongyrchol o'r cysylltiad hwn.

Nid oedd unrhyw fenywod duon neu o dras gymysg wedi dod i'r fei. Cysylltais a Karen Battle sy'n gwirfoddoli yng *Nghanolfan Hanes a ChelfButetown* a threfnodd fy mod i'n cwrdd a'r menywod hyn sy'n ymgynnull yng *Nghanolfan Gymdeithasol Butetown* i chwarae bingo ar brynhawn Mawrth. 'Roedd nifer ohonynt wedi gweithio mewn ffathoedd, yn cynnwys mam Karen, Vera Battle, ei chwaer Josie Peacock, a Marguerite Barber. Yn ogystal, recordiais gyfweiliad hynod o dreiddgar gan Madeline Sedgwick, yn son am agweddau hiliol rhai o ffathoedd Caerdydd yn yr 1950au.



*Madeline Sedgwick, fu'n gweithio mewn pum ffatri wahanol yng Nghaerdydd*

Yr anhawster mwyaf a wynebais o bell ffordd yn ystod y prosiect oedd sut i ddod i ben a thrawsysgrifio 70 o gyfweiliadau, dros hanner miliwn o eiriau, a chymaint o bethau eraill angen eu gwneud. Es ati i ddarganfod gwirfoddolwyr a oedd yn fodlon cynorthwyo gyda'r trawsysgrifio yn benodol. Daeth ambell i ffrind a chydabod i'r adwy yn cynnwys Joan Ryan, Marged Parry, Glen Biseker, Anne Newman, Rosemary Scadden a Catrin Stevens. Yn ogystal cefais gymorth gan Richard Marsden o Adran Astudiaethau Allanol Prifysgol Caerdydd. Danfonodd Richard hysbyseb ar e-bost at nifer o'i fyfyrwyr hanes allanol a daeth pedair ohonynt nol ata'i - Isla Sheree Humphreys, Kath Bergamanski, Kim Furness a Margaret Riddett. Lluniais daflen syml ar eu cyfer yn egluro sut i lawrlwytho meddalwedd ExpressScribe ac yn cynnwys canllawiau ar sut i drawsysgrifio. 'Roedd cymorth y gwirfoddolwyr yma'n hollbwysig a'u cyfraniad yn fy ngalluogi innau i orffen y prosiect mewn pryd ac yn fy llawn bwyll. Diolch iddynt!

Daeth gwahoddiad i siarad am y prosiect yn ysgol undydd *Llafur- Cymdeithas Hanes Pobl Cymru* ac *Archif Menywod Cymru* yn Arberth ar Fai 17eg. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau fudiad lwyfannu digwyddiad ar y cyd ac 'roedd e'n gyfle gwych arall i rannu ein hymchwil gyda chynulleidfa frwdfrydig o tua 60 o bobl. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r prosiect yn dilyn y sgwrs ac yn y fforwm drafod ar ddiwedd y dydd.

Erbyn dechrau'r haf, 'roedd hi'n bryd i ni greu arddangosfeydd teithiol *Lleisiau o Lawr y Ffatri* er mwyn arddangos ffrwyth ein llafur. Y broblem fwyaf oedd dethol deunydd o'r 80 cyfweiliad a gyflawnwyd a'r 286 o luniau a dynnwyd ac a gasglwyd yn portreadu gwaith y menywod mewn 91 o ffatri'oedd yn y de-ddwyrain. Ers canol mis Gorffennaf, mae'r ddwy arddangosfa wedi teithio i chwe man yn y gymuned honno - Llyfrgell Aberdar, Canolfan Gelfyddydau Redhouse Merthyr Tudful, Canolfan Dreftadaeth y Rhondda, Pafiliwn Porthcawl, Llyfrgell Bargod a Llyfrgell Ganolog Caerdydd.



*Arddangosfa'rde-ddwyrain yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd*

Mae'r arddangosfeydd yn cynnwys lluniau o'r cyfweleion, lluniau archif ohonynt yn eu manau gwaith, a nifer o ddyfyniadau ganddynt - *Lleisiau o Lawr y Ffatri* yn wir.

Dyma leisiau rhai o'r menywod:



"I ddechrau, o'dd - o'dd y peiriant yn codi ofon arnon ni, ond wedyn bydden ni'n rhedeg ein dwylo drosto fe pan o'dd e'n mynd ffwl pelt... O'dd e'n rhan ohonon ni wedyn on'd o'dd e - o'n ni wedi bod arno fe gyhyd." (cyfieithiad)

**Marjorie Evans, Ffatri Sobell's TV and Radio, Rhigos**

*Marjorie yn defnyddio'rpeiriant 'Westminster'*

"O'dd dwy oferol 'da ni ac un par o glocsie. Os elen ni mas amser cinio, o'n nhw'n gallu clywed ni'n dod filltir bant... O'n nhw i gyd yn gwbod bod ni'n dod o **Corona**, oherwydd y clocsie." (Cyfieithiad)

**Maureen Jones, ffatri bop Corona, Porth, Rhondda**

*Maureen arydde yn ei hoferol*



*"O'n nhw'n meddwl bod hi'n welljob, i fod aryledi bers, nag arytis erill."*

*"Felly bydde pobl yn cael 'promotion' i linell y tedi bers 'te?"*

*"Bydden, dwi'n meddwl y bydden nhw"*

*"Ond fuoch chi 'rnod ar y tedi bers?"*

*"Na - gyrhaeddes i ddim morbell a 'ny. O'n i'n siarad gormod!" (Cyfieithiad)*

**Mary Farr, Ffatri deganau HG Stone, Pont-y-pwl**

"Fydden ni'n cerdded drwy GECs a Liners ac o.. y gwynt o'dd yn dod o Liners y ffatri esgyrn! DCL, Chrome Leather, Western Board, Aero Zip, Trefforest Sync Printers, ac wedyn Robinson's Flooring. Wedyn Stuart Singleham, Plastic Engineers, Homertons, a Elliot's Glass... A wedyn ar ein pwys ni o'dd Rosedales." (Cyfieithiad)

**Shirley Smith, Ffatri Burry, Son & Company, Stad Ddiwydiannol Trefforest**



*Maisie Taylor ar ddiwrnod ei phriodas a chyda'i gwisg briodas heddiw*

"Pan glywodd Miss Grunfeldt (yr oruwchylwraig) bo fi'n priodi, wedodd hi 'Dewiswch chi'r steil chi'n moyn a phrynwch y defnydd, ac fe wnewn ni'r ffrog i chi.' O'n i wrth fy modd!" (Cyfieithiad)

**Maisie Taylor, Ffatri ddillad Horrock's, Caerdydd**



*Marion aychwith yn Hoover, 1960au*

"Pan ddath cydraddoldeb (Deddf Cyflog Cyfartal), allech chi dimlo chwerwdery dynion tuag atoch chi, chi'n gwbod. O'n nhw ddim yn moyn i ni gael pai cyfartal... ddim mewn unrhyw ffordd. O'dd rhaid iddyn nhw roi miwn yn y diwedd... ond o'dd e ddim yn amser neis... ddim o gwbl." (Cyfieithiad)

**Marion Jones, Ffatri Hoover, Merthyr Tudful**



*Betty, nith Isabel, a 'i ffrind Sylvia*

"Wedodd 'n whar i o'dd yn gwitho 'na ar y pryd, wrth y rheolwr mod i'n edrych am waith, a wedodd e 'Faint yw 'i hoedran hi?'

'14' wedodd hi... 'Faint yw 'i hoedran hi?' wedodd e 'to. 'O... 16!' wedodd hi. Felly dechreues i witho yn gwaith tun y Mansel.. ond o'dd e'n galed iawn." (Cyfieithiad)

**Isabel Thomas, Gwaith tunplat y Mansel, Aberafan**

"O'dd 'ngolwg i'n dda, o'n i'n lico gwinio ac o'n i'n gyflym. O'n i'n ennill bonws drwy'r amser.... Felly rhoion nhw fi ar y bras du. Ond o'dd e ddim yn rhwydd gwinio du ar ddu ac o'dd lot o gamsyniade. O'n i'n methu gwneud cymaint ag arfer a wy'n cofio cwyno'n ofnadw am y peth...!" (Cyfieithiad)

**Luana Dee, Ffatri Berlei Bras, Merthyr Tudful**



*Jill arydde'n hyfforddi menyw ifarte*

"Rhwyfo! Ydy, mae e dipyn bach fel rhwyfo. Chi'n gwbod fel ma rhwyfwr yn neud - chi'n gweu tipyn bach ac yn 'i dynnu e nol 'to... O'n i'n dwlu arno fe. Wy'n cyfadde mod i'n meddwl na fydden i'n gallu diodde fe am hir ond fe wnes i! O'n i'n dwlu ar bob muned." (Cyfieithiad)

**Jill Williams, Gripolly Mills, Caerdydd**

## **Adroddiad Swyddog Maes y Gogledd: Kate Sullivan**

Ar y dechrau'r prif bryder yng ngogledd Cymru oedd adnabod ffatrioedd a darganfod siaradwyr, oherwydd diffyg rhanbarthau diwydiannol mawr yn yr ardal. Fodd bynnag, fel y digwyddodd hi, roedd digon o ffynonellau a rheiny'n rhai cyson. Cafwyd nifer o enwau cychwynnol trwy gysylltiadau Catrin Stevens, cydlynnydd y prosiect, a'i hymwneud a Merched y Wawr. Daeth mwyafrif y cysylltiadau eraill trwy i'r swyddog maes holi ffrindiau a chyd-weithwyr. Cafwyd cymorth amhrisiadwy ganddynt ac mewn sawl achos arweiniodd hyn at glystyrau o gyfweleion, yn enwedig yng Nghaernarfon a Llanrwst. Fel yr aeth y prosiect rhagddo, cynhaliwyd y broses o gael hyd i gysylltiadau yn foddhaol. Roedd gan y cyfweleion eu hunain ddiddordeb mawr yn y prosiect a chynorthwyon nhw'r swyddog maes yn fawr i gysylltu a chyn-gydweithwyr. Parhaodd cysylltu o ben i ben fel hyn yn effeithiol tan yr haf a dirwyn y prosiect i ben ym mis Medi 2014.

Oherwydd naturwledig gogledd Cymru, tueddai'r ffathoedd fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol fel Caernarfon neu Fangor neu ynte mewn pocedi o ddiwydiant ysgafn ledled y rhanbarth, e.e. yn nyffryn Conwy, mewn trefi llai fel y Bala a Llanrwst, neu mewn mentrau unigol fel Laura Ashley (tecstilau) yng Ngharno, a Cookes Explosives Ltd ym Mhenrhyndeudraeth. Felly roedd y dalgylch yn eang, yn cyrraedd o Garno i Gaernarfon, draw i Lannau Dyfrdwy ac i lawr at Wrecsam yn y gogledd ddwyrain. O'r herwydd treuliodd y swyddog lawer o amser ar y ffordd a gallai diwrnod cyfweld bara o rhwng tair awr ar gyfer y rhai nes at gartref i saith i wyth awr pan oeddwn yn teithio i lefydd fel y Flint, Llandudno neu Ynys Mon.

Dechreuwyd cyfweld yn fuan wedi'r sesiwn hyfforddiant cychwynnol yn Hydref 2013, gyda dwy fenyw o Ffatri Ackroyds Pyjamas yn y Bala. Daeth y rhaglen gyfweld i drefn gyda phatrwm o rhwng dau i wyth cyfweliad y mis, gan amlaf ceid pedwar neu bump, neu ychydig dros un yr wythnos ar gyfartaledd. Cynhaliwyd pob cyfweliad yng nghartrefi'r siaradwyr ac oherwydd y pellter teithio, dim ond un cyfweliad y dydd oedd y norm, er weithiau ai hyn yn ddau a hyd yn oed tri chyfweliad, os oedd hynny'n arbennig o gynhyrchiol a chyfleus. Rhwng Tachwedd 2013 a Medi 2014, cwblhawyd 39 cyfweliad gan y swyddog ei hun, gydag 11 pellach gan Wena Grant, gwirfoddolwraig yn y gogledd ddwyrain, 4 gan Shan Robinson ym Mangor, a 2 gan Helen Ellis ym Mhenrhyndeudraeth.

Yn ogystal a gwneud y cyfweliadau sain, sganiwyd tua 160 o ffotograffau a chofnodwyd eu manylion yn y metadata, ynghyd a'r wybodaeth am y cyfweleion, y ffatri neu, mewn sawl achos, y ffathoedd y gweithient ynddynt, ynghyd a dogfennaeth berthnasol. Gwnaethpwyd adysgrifau o'r holl gyfweliadau, sef crynodebau hir, yn hytrach na thrawsysgrifau air am air. Tynnwyd sylw arbennig at sylwadau diddorol iawn a chynhwyswyd dyfyniadau dadlennol yn llawn. Roedd adysgrifio yn llyncu amser, oherwydd hyd y cyfweliadau, a oedd gan amlaf yn awr o hyd, weithiau'n awr a hanner, a hefyd oherwydd tafodieithoedd gwahanol o fewn y rhanbarth. Roedd un ar bymtheg o gyfweliadau'r swyddog yn Saesneg, o'u cymharu a thri ar hugain yn Gymraeg, ac roedd yr iaith lafar yn amrywio'n fawr, ac yn

arbennig o gryf mewn llefydd fel Glyn Ceiriog a Chaernarfon. Fodd bynnag, wrth i'r prosiect fynd rhagddo, roedd modd adysgrifio'n gynt, wrth ddod yn gyfarwydd a'u hysgrifennu ac a chwirciau, a throeon a thermau slang, iaith y cyfweiliad.

Roedd y math o ffatri'oedd yn amrywio yng ngogledd Cymru, fel y gellid disgwyl o ystyried yr ardal eang dan sylw. Roedd natur y cynnyrch yn amrywio o decstilau, i gompactau, teganau, ffrwydron, alwminiwm ac offer trydanol.

Yn ystod haf 2014 paratowyd dwy arddangosfa o'rffotograffau a gasglwyd a detholiadau o'r cyfweiliadau a.y.b. a bu ar daith mewn wyth lleoliad ledled gogledd Cymru.



Elaine, archifydd, gydag arddangosfa gogledd Cymru yn Nolgellau

Dyma ddyfyniadau o rai o sylwadau merched y ffathoedd o'r cyfweiliadau:

***lechyd a Diogelwch:***



"Roedd yn rhaid i chi ddarllen gwefusa, roedd hi mor swnllyd. Pan aeth fy mys yn sownd, doeddwn i ddim yn gallu cael unrhyw un i nghlywed i. A digwyddodd y ferch 'ma edrych tuag ata i a rheddodd ata i. Heblaw amdani hi, felly, mae'n rhaid ei bod yn bump i ddeg munud cyn i mi lwyddo i dynnu sylw unrhyw un." (Cyfieithiad)

**Nesta Davies, Ffatri Johnson's Fabrics, Wrecsam**



"Llawr concrit oedd o, ac oedd 'na llwch yna, calch oddi wrth y *corsets*. A dyn yn dod a dwr i mewn, mewn *watering can*. Wedyn oedd o'n mynd rownd y lie fel 'na a watero'r llawr, er mwyn cadw'r llwch i lawr. Ac oedd hi'n oer yno, doedd 'na ddim *heating*, na dim byd, 'sti. Ond i fyny'r grisiau, oedd 'na ffenestri ty gwydr i fyny'r grisiau a pan oedd hi'n haf, oedd hi'n berwi. Oedden ni'n cael ein cwcio'n fyw."

**Dilys Wyn Jones, Ffatri Gorsedau, Caernarfon**

"On i wrth y crwc, a dyma 'na glee, a dyma'r crwc, a'r gadair 'ma, yn llithran ar hyd y cantTn fel 'na, a dim dropyn o ddwr yn disgyn ohoni, ond mi ath, 'te? Oedd o'n drwm, doedd? A dyma ni i gyd yn rhedeg am y ffenestr, a Mrs Williams yn gweiddi "Peidiwch a mynd i'r ffenestri, mae'n beryg - gwydrau. Cafodd pedwar eu lladd y diwrnod hwnnw, yn y cwt 'na. Roedd o'n lie peryglus ond doeddech chi ddim ym meddwl am hynny pan oeddech chi yno."

**Marion Roberts, Ffatri Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth**



*Gweithwyr Cookes Explosives*

**Cyflogau:**



"Ond dw i'n meddwl mai'r peth mwyaf braf oedd cael y cyflog cyntaf, a honno'r ail wythnos, ond oedd, *work a week in hand* oeddech chi, a chael mynd efo'r cyflog, yn yr enfelop bach brown, 'te, a mynd i roi'r pres i Mam."

**Margaret Williams. Ffatri Gorsedau, Caernarfon**

"Dw i'n cofio y tro cyntaf, y cyflog cyntaf ges i, oedd un ar ddeg punt a rhywbeth am bedwar deg awr. Ond oedd o'n lot o bres."

**Cath Parry, Ffatri Ackroyds  
Pyjamas, Y Bala**



"(Yn Cardwells) dwi'n meddwl mai £1.50 neu rywbeth fel yna oedd o, ac yna ron i'n cael pedair punt yr wythnos yn Laura Ashley. A dim ond fi a fy chwaer oedd yno, dwy beiriannydd."  
(Cyfieithiad)

**Mo Lewis, Ffatri Laura Ashley,  
Carno**

***Profiadau byd gwaith:***

"On i'n wrth fy modd yna. Odd pawb mwy at ei gilydd, odd 'na genod *rough and ready* ond on i'n licio nhw, on i'n rili licio nhw. On i'n cael gwranddo ar eu hanesion nhw, pethau on i ddim yn cael clywed adre, Arglwydd!"

**Mary Evans, Kaylor Compacts,  
Caernarfon**





*Susie Jones yn derbyn set o lestri te am 35 mlynedd o wasanaeth*

"Ni chefais ysgol uwch na choleg ond bu gweithio yn y gwaith yn brofiad ac yn agoriad llygad ac roedd cymeriadau annwyl a chlyfar i'w canfod yn ein mysg."

**Susie Jones, Ffatri Cookes  
Explosives, Penrhyndeudraeth**

"Yn 1964, pan ddechreuais i weithio, gallwn i gael un job yn y bore, un arall amser cinio os nad oeddech yn hoffi'r un yna, un arall yn syth ar ol cinio falle, a phedwaredd cyn diwedd y dydd. Roedd hi'n ffynnu, roedd gwaith i bawb. Fyddech chi byth yn clywed am lawer o bobl ar y dol." (Cyfieithiad)

**Vicky Perfect, Ffatri Courtaulds, y Fflint**

*urtauOfs'girls The CoMfuutc<sup>1</sup>  
s'Gkfs T- CourtaulWirfs*

*Vicky Perfect gyda Graffiti enwog Courtaulds*

## **Adroddiad Swyddog Maes y De-orllewin: Susan Roberts**

Y targed yn y de-orllewin oedd recordio 35 o gyfweiliadau, trawsysgrifio pob cyfweiliad a sganio lluniau o'u casgliadau personol yn ymwneud a'u bywyd gwaith ac o achlysuron cymdeithasol. Nid dod o hyd i 35 o gyfranwyr oedd y brif her yn y rhanbarth hwn. Roedd y targed yn un hawdd ei gyrraedd. (Recordiwyd 43 o gyfweiliadau gyda nifer o enwau wrth gefn.) Yr her oedd darganfod croestoriad o siaradwyr ar draws dalgylch amrywiol iawn - o Abertawe, Llanelli, a Chwm Gwendraeth i Sir Benfro a Cheredigion, ac felly yn cynnwys ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd gwledig.

Roedd yna rwystrau diwylliannol wrth drefnu cyfweiliadau. Menywod dosbarth gweithiol oedd y menywod targed ar y cyfan. Nid oeddynt yn fenywod a oedd yn debygol o ymateb i apel radio neu bapur newydd ac ni phrofodd ffynonellau hanesyddol ffurfiol fel cymdeithasau hanes yn ddefnyddiol iawn, oherwydd bod eu ffocws ar agweddau academiaidd a hanes sydd eisoes wedi'i gofnodi.

Mewn ardaloedd diwydiannol fel Cwm Gwendraeth a Llanelli lie mae hanes y dosbarth gweithiol yn bwysig mae'r pwyslais wedi bod ar hanes dynion yn y maes glo a'r gweithfeydd dur, a hanes y ffatri'oedd wedi cael ei gladdu. Ond fe brofodd yr ardaloedd hyn yn wythiennau cyfoethog o siaradwyr. Trwy gysylltu a chyfranwyr potensial ar lawr gwlad - wrth fanteisio ar gysylltiadau personol a chymunedol, a chysylltu a chymdeithasau a sefydliadau fel y capeli, Merched y Wawr, canolfannau'r hen oed, a llyfrgelloedd lleol - mae'r prosiect wedi llwyddo fel prosiect cymunedol. Yn ardal Abertawe, er enghraifft cafwyd hyd i nifer o fenywod o Townhill a fu'n gweithio ar ystad ddiwydiannol Fforest-fach trwy help Ricky Simpson, swyddog cymunedol Canolfan y Phoenix. Profodd yn ddolen gyswllt hanfodol gyda TOPIC House (*The Older People's Information Centre*), lie daethpwyd o hyd i Cynthia Rix, Jean Evans a Catherine "Kitty" Jones.

Profodd Sir Benfro yn dalcen caled. Ond llwyddwyd i ddod o hyd i siaradwyr a fu'n gweithio yn ffatri Slimma, Abergwaun gyda help caredig Hedydd Hughes ym Menter Iaith Sir Benfro, a chysylltodd y prosiect a chwrs llythrennedd a rhifedd yn Nhreletert, a oedd yn cael ei redeg gan Frances Allen. Hefyd, cafwyd help gan wasanaeth canolfannau dydd Cyngor Sir Benfro a chanolfan Addysg Gydol Oes Doc Penfro i ddarganfod siaradwyr yn Aberdaugleddau a Doc Penfro.

Darparwyd rhestr o gwestiynau fel canllaw i'r cyfweiliadau. Roedd yr holiadur yn arf defnyddiol i brocio cofy cyfwelai ac yn rhoi strwythur i'r holi. Hefyd, fel roedd y prosiect yn esblygu roedd yn golygu bod cymariaethau a themau cyffredin yn amlygu'u hunain. Dywedodd mwyafrif y siaradwyr eu bod wedi mwynhau'n fawr iawn y profiad o rannu eu hatgofion, er eu bod yn teimlo'n nerfus o flaen llaw. Recordiwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau yng nghartrefi'r cyfweleion.

Profodd y gwaith o drawsysgrifio'r cyfweiliadau air am air yn broses llafurddwys. Er mwyn hwyluso'r gwaith hwnnw penderfynodd y Grwp Rheoli y byddai'n well

adysgrifio'r cyfweliadau gan gofnodi geiriau'r cyfwelai yn y trydydd person a nodi darnau dethol a oedd o ddiddordeb mawr, neu'n mynegi agwedd arbennig o'u hamser yn y ffatri'oedd, air am air ar ffurf dyfyniadau.

Cwblhawyd gwaith gweinyddol y cyfweliadau yn syth ar ol recordio. Roedd sawl un o'r menywod eisiau aros yn ddiennw gan eu bod yn teimlo eu bod wedi dweud gormod. Nid oedd lluniau gan nifer helaeth o'r cyfweleion ond tynnwyd portread cyfredol o bron bob un siaradwraig.

Er mai'r briff cychwynnol oedd cyfweld a menywod yn unigol, ar sawl achlysur teimlai'r cyfwelai ei bod hi eisiau 'cwmni' a help i gofio. Profodd yr ail gyfwelai yn gaffaeliad droeon, ac roedd y ddeialog rhyngddynt yn dangos y math o gyfeillgarwch gydol oes a oedd wedi datblygu rhwng y siaradwyr.

Ni lynwyd at y briffyn llythrennol bob tro. Yng Ngheredigion cynhaliwyd nifer o gyfweliadau gyda menywod oedd wedi bod yn gweithio yn y diwydiant Ilaeth - yn ffatri laeth Pont Llanio a Hufenfa Felin-fach. At hyn recordiwyd cyfweliad gydag Enid Thomas, nyrs a ddechreuodd weithio yn ffatri Fisher and Ludlow, Llanelli, tuag 1978 er mwyn dangos y math o ofal meddygol a oedd ar gael yn y ffatrioedd.

Yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion roedd canran uchel o'n cyfranwyr yn siaradwyr Cymraeg, felly cynhaliwyd y cyfweliadau yn y Gymraeg, er bod rhai ohonynt yn poeni am safon eu hiaith. Mewn ardal drefol fel Abertawe, Saesneg oedd iaith mwyafrif y cyfweliadau. Yn cyd-fynd a'r gwahaniaeth ieithyddol roedd gwahaniaethau diwylliannol, gyda'r siaradwyr Cymraeg yn amharod iawn i feirniadu'r gwaith neu'r rheolwyr, a'r merched di-Gymraeg yn fwy parod i rannu profiadau ar agweddau nad oeddynt yn hapus yn eu cylch. Recordiwyd cyfweliadau gyda gweithwyr dros dro hefyd gan eu bod yn gallu cynnig persbectif amgen ar y gwaith.

Bu rol y gwirfoddolwyr yn y de-orllewin yn holl bwysig, yn arbennig yn ardal Abertawe. Cynhaliwyd diwrnod o hyfforddiant yn Llyfrgell y Glowyr a chafodd wyth gwirfoddolwraig eu hyfforddi:-Avril Rolph, Jenny Sabine, Eugena Hopkin, Jaci Gruffudd, Wendy Marmara, Annest Wiliam, Silva Huws a Catrin Stevens, a recordiodd 13 o gyfweleion. Roedd saith ohonynt yn dod o ardal Abertawe ac roeddynt yn gallu cynnig gwybodaeth bellach am ffatrioedd a oedd yn adnabyddus iddynt fel Penn Elastic a Mettoys.

O ran y cyhoeddusrwydd roedd angen cyhoeddusrwydd lleol i dargeddi ardaloedd a ffatri'oedd arbennig. Cysylltwyd a llyfrgelloedd yn ardal Abertawe a bu Leesa Harrison yn Llyfrgell Fforest-fach yn gefnogol iawn. Crewyd posteri gan y Swyddog Maes yn gofyn am gyn-weithwyr o Mettoys, Louis Marx, Smiths Crisps ac Addis yn arbennig. Yn y ffordd yma, llwyddwyd i ddarganfod Patricia Ridd, Margaret Hayes, Grace Beaman ac Ann Harrison. Yn yr un modd bu Pat Perkins yn Llyfrgell Treforys yn allweddol trwy roi mynediad i grwpiau'n cyfarfod yno, fel y '*Knit & Natter*' lleol. Trwy siarad gyda'r grwp wyneb yn wyneb daethpwyd o hyd i Margaret Morris ac Alison Rees, acfe'u darbwyllyd i gymryd rhan.

Manteisiwyd ar gyfryngau eraill i hyrwyddo'r prosiect. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol fel gwefan Fforwm Hanes Fforest-fach a gwnaethpwyd cyfweiliad ar raglen gylchgrawn 'Pnawn Da' ar S4C. At hyn derbyniwyd gwahoddiadau gan sawl cymdeithas leol i siarad am y prosiect: Swansea Probus, Pontardawe; Chwiorydd Capel Soar, Pontyberem; Joanie Club, Castell Nedd; Cymdeithas yr Hen Oed Fforest-fach (Adran y Menywod); *Knit and Natter*, Llyfrgell Treforys; Cymdeithas yr Hen Oed, Pontyberem; Cwrtsart Fellowship, Llansawel; Grwp Llyfrgell Pontardawe; Clwb yr Hen Oed, Pontardawe; Gild Cydweithredol y Merched, Llanelli.

Ym maes cyhoeddusrwydd, unwaith eto, fe brofodd y pwyllgor rheoli yn gefnogol tu hwnt. Danfonodd Rosemary Scadden fanylion am arddangosfeydd y de-orllewin at y *South West Wales Media* ac ymddangosodd erthygl yn y *Llanelli Star* ar 17 Medi, 2014 yn hysbysebu'r arddangosfa yn Llyfrgell Llanelli a Theatr y Ffwrnes.



## Women's role in factories on show

THE Women's Archive of Wales has recently conducted an oral history of women who worked in Welsh factories post 1945 after receiving cash from the Heritage Lottery Fund.

Most of these jobs have now gone to the Far East, so the project was deemed an important piece of work capturing the memories of these women, before they have gone forever.

To conclude the study small exhibitions have been mounted in the geographical areas where the women were working.

The first exhibition took place at Llanelli Library from September 1 to September 12. And now, until September 15, the exhibition will now be at Ffwrnes.

Cynhaliwyd dwy arddangosfa yn y de-orllewin mewn dau leoliad gwahanol, ar yr un pryd: un yn Llyfrgell Llanelli, Theatr y Ffwrnes Llanelli a Theatr Felin-fach a'r llall yn Llyfrgelloedd Fforest-fach, Treforys ac Ystradgynlais. Roedd yr adborth gan y staff yn y lleoliadau hyn yn bositif iawn. Cafodd siaradwyr fel Patricia Ridd a Margaret Morris gyfle i weld ffrwyth eu llafur wrth ymweld ag arddangosfeydd Fforest-fach a Threforys.

Profodd ein dull o recordio cyfweiliadau yn ffordd ddelfrydol i gofnodi hanesion ein menywod, a hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u profiadau.

Dyma rai o berlau r menywod:-

"O'dd e fel *jail sentence*... O'ch chi'n eistedd yn eich set ac yn neud yr un peth o fore gwyn tan nos. O'ch chi'n mynd i ga'l cino, ac o'ch chi'n dod nol a neud yr un peth. Ac o'ch chi'n mynd gatre. Ac oedd e fel, o'n i'n teimlo fel sen i mewn boc."

**Nan Morse Alan Paine Rhydaman**

"...y cyffro pan o'n nhw'n dod rownd 'da'r slip, yn gweud 'tho ti faint o fonws o'dd 'da ti... Rheina o'dd dyddie hapusa' 'mywyd i. O'n i'n joio bob munud. O'n i'n dwlu ar y merched, dwlu ar y gwaith, o'n i'n dwlu ar bopeth 'na." (Cyfieithiad)

**Gweithwraig Ddi-enw, Morris Motors, Llanelli**



"Ond o'dd dim amser 'da chi i siarad a pobol 'na ... allech chi byth a mynd offy mashTn i gloncan ne bydde'ch target chi mas trw'r ffenest... O'dd e'n waith caled. O'dd unrhyw un sydd wedi bod yn gwitho yn ffactri fel Slimma, o'dd dim ofan gwaith arnyn nhw."

**Helena Gregson, Ffatri Slimma,  
Llanbedr Pont Steffan**

"O'dd pawb wrth eu bodd i ga'l swydd 'na achos o'dd dim byd 'ma...dim byd i ferched erioed....arwahan i fynd i sgrwbo neu rywbeth fel'na. *One pound two and six* o'dd 'y 'nghyflog cynta' i. O'n i'n meddwl bo fi'n gyfoethog!"

**Joyce Evans, Ffatri "Tic Toe" (Anglo Celtic) Ystradgynlais**



"O'n i'n dwlu ar Mettoys... .O'n nhw'n deg ac o'dd pawb 'da'i gilydd... Ond o'dd rhaid ymladd am bopeth...Y cyfan o'n ni eisiau o'dd mynd mewn, gwneud diwrnod o waith, dod adref, gwishgo lan a mynd ma's, codi'r bore wedyn a gwneud yn gwmws yr un peth 'to...." (Cyfieithiad)

**Cynthia Rix, Ffatri Mettoys,  
Fforest-fach, Abertawe**

"Ma'n rhaid 'mod i wedi mwynhau gwaith ffatri. Gweithiais i mewn ffatrioedd o 1961 tan 1998, trwy gydol fy mywyd, wy' erioed wedi bod ar y clwt. Fel wedes i, o't ti'n gallu gadael un swydd a cherdded mewn i un arall yn syth." (Cyfieithiad)

**Patricia Ridd, Ffatri Corona, Fforest-fach, Abertawe**




"chi'n dod i nabod [llaeth] y ffermydd 'ma i gyd,... on nhw'n dod fel 'sen nhw'n blant i chi - yn ffrindie. O'dd wahanol wynt 'da nhwarwahanol adeg o'rflwyddyn. Mae'n dibynnu beth on nhw'n cal 'u ffido. Os on nhw ma's mewn porfa ffresh neu'n mynd i ga i bori rep, odd y smel dipyn yn wahanol."

**Meiryl James, Hufenfa Felin-fach, Ceredigion**

"O'n i'n cwpla ysgol ar y dydd Gwener ac o'n i'n dechre yn y ffactori ar y dydd Llun.

'Na'rysgol ore erio'd, o'dd mynd i witho'n Tic Toe."

**Moira Morris Ffatri Tic Toe (Anglo Celtic), Ystradgynlais**



## ADRAN C

### Marchnata a Chyhoedduswydd:

Defnyddiwyd amrywiol ddulliau i ddenu sylw at y prosiect:

- > **Papurau newydd:** Cafodd y prosiect gryn gyhoedduswydd trwy'r llythyrau a anfonwyd trwy *Media Wales* i 35 o bapurau lleol ledled Cymru yn apelio am siaradwyr i gysylltu a ni. Apeliwyd am siaradwyr Cymraeg trwy lythyron i 45 o bapurau bro a *Y Cymro*. Yna, tua hanner y ffordd trwy'r prosiect, ail-ddefnyddiwyd y strategaeth hon i gael hyd i siaradwyr ar gyfer y gogledd-ddwyrain a chyhoeddwyd llythyron yn apelio am gymorth yn y *Daily Post*, y *Wrexham Leader* a'r *Deeside Leader*. At hyn ysgrifennwyd erthyglau cyson yng Nghylchlythyrau AMC ac anfonwyd gwybodaeth i Ferched y Wawr (cyhoeddwyd yn *Y Wawr*, Mawrth 2014) ac i gylchgrawn Sefydliad y Merched. Un o'r erthyglau mwyaf trawiadol oedd erthygl tudalen gyfan gan Rachael Misstear '*Hoover women's equal pay led to years of male resentment*' yn *Western Mail*, 24 Gorffennaf, 2014, a symbylwyd gan arddangosfa'r prosiect ym Merthyr Tudful.
- > **Sgyrsiau cyhoeddus:** Manteisiwyd ar bob cyfle i gyflwyno'r prosiect i gynulleidfaoedd gwahanol. Noda'r Swyddogion Maes y sgyrsiau a gyflwynon nhw yn eu hardaloedd i dynnu sylw at y prosiect (ADRAN B). Dyma restr o'r prif sgyrsiau a'r darlithoedd a gyflwynwyd:

*Medi 9, 2012:* Penwythnos Preswyl Cenedlaethol Merched y Wawr, Llanbedr Pont Steffan (Catrin Stevens)

*Hydref 2012:* Cynhadledd Flynyddol AMC yn y Fenni (Yr Athro Deirdre Beddoe a Catrin Stevens)

*Hydref 12, 2013:* Cynhadledd Flynyddol AMC ym Merthyr Tudful (Catrin Stevens)

*Chwefror 19, 2014:* Y Senedd, Caerdydd (Jenny Sabine, Rebecca Ball [CDL], yr Athro Deirdre Beddoe a Catrin Stevens)

*Mawrth 29, 2014:* Cymdeithas Hanes Gelli-gaer (Catrin Edwards)

*Mai 17, 2014:* Cynhadledd AMC ar y cyd a chymdeithas Llafur, Arberth (Catrin Edwards)

*Mehafin 26, 2014:* Co-operative Women's Guild, Llanelli (Susan Roberts a Catrin Stevens)

*Awst 8, 2014:* Sesiwn gan AMC yn yr Eisteddfod Genedlaethol (Eirlys Lewis, Enid Davies - dwy gyn-weithwraig, Jaci Gruffudd - gwirfoddolwraig, a Catrin Stevens gydag ymchwil gan Susan Roberts)



Panel o siaradwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar, Awst 2014: Jaci Gruffudd (gwirfoddolwraig), Eirlys Lewis ac Enid Davies (cyn-weithwyr ffatri)

*Hydref4, 2014:* Cynhadledd Flynyddol AMC, Bangor (Kate Sullivan, Catrin Edwards a Catrin Stevens)

*Hydref20, 2014:* Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt, Abertawe (Catrin Stevens)

*Rhagfyr2, 2014:* Cwrs Hyfforddi CDL, Caerdydd (Catrin Stevens)

> **Radio a theledu:** Cafwyd sawl gwahoddiad i drafod y prosiect ar y radio a'r teledu, er enghraifft:

Awst 25, 2013: Radio Wales, rhaglen Roy Noble (Catrin Stevens)

Hydref 2, 2013: Radio Cymru, rhaglen Iola Wyn (Catrin Stevens)

Mai 2014: S4C Pnawn Da (Susan Roberts)

Gorffennaf 31, 2014: Radio Wales, rhaglen Eleri Sion (Kate Sullivan, Vera Jones a Nesta Davies)

Awst 8, 2014: BBC Cymru rhaglen o Eisteddfod Sir Gar (Catrin Stevens)

> **Gwefannau cymdeithasol:** Sefydlwyd BLOG arwefan AMC: [www.womensarchivewales.org](http://www.womensarchivewales.org), ac ychwanegwyd ato gan y Swyddogion Maes ac eraill yn rheolaidd.

Anfonwyd negeseuon ar Trydar a Gweplyfr gan Avril Rolph a Caroline Fairclough o'r GRhP yn gyson.

- > **Posterï:** Cynhyrchodd Catrin Edwards bosterï lliwgar i hysbysebu'r prosiect yn y de-ddwyrain (gweler Adran B)
  
- > **Arddangosfeydd:** Yn ein cais i CDL nodwyd y byddem yn cynhyrchu arddangosfeydd teithiol tua therfyn y prosiect i rannu'n darganfyddiadau gyda'r cyhoedd. Llwyddwyd i baratoi chwe arddangosfa (dwy gan bod Swyddog Maes). Penderfynwyd arfformat cyffelyb i sicrhau cysondeb ar draws y y chwe arddangosfa, yn cynnwys nifer o ffotograffau / dogfennau gwreiddiol a gasglwyd; lluniau o'n siaradwyr, a dyfyniadau o'r cyfweiliadau. Dewiswyd lleoliadau addas megis llyfrgelloedd lleol, archifdai sirol, canolfannau cymdeithasol a chelf. Anfonwyd gwahoddiadau at gyfweleion lleol yn tynnu'u sylw at yr arddangosfeydd a fyddai yn eu hardaloedd. Gwahoddwyd sylwadau gan ymwelwyr am yr arddangosfeydd trwy lyfrau ymwelwyr.



Y chwe arddangosfa ochr yn ochr yng Nghynhadledd Flynyddol AMC, 2014

**ARFARNIADAU:**

Penderfynwyd gofyn i ddwy garfan werthuso'r prosiect:

**(i) Y Cyfweleion:**

Gofynnwyd i bod siaradwraig(wr) lenwi ffurflen werthuso yn ddiennw. Felly dosbarthwyd 210 ffurflen a dychwelwyd 153, seft tua 75%, canran dderbyniol iawn. Dyma'r cwesytynau a ofynnwyd:

	Uchaf				Isaf
1. Oedd y trefniadau ar gyfer y cyfweiliad yn effeithiol?	5	4	3	2	1
2. Oedd y lleoliad yn addas?	5	4	3	2	1
3. Oeddech chi'n gyfforddus yn cael eich holi?	5	4	3	2	1
4. Oedd y cwesytynau a holwyd yn addas?	5	4	3	2	1

5. Oeddech chi'n teimlo i chi gael cyfle i adrodd eich hanes yn effeithiol?

5 4 3 2 1

6. Oedd y sesiwn o'r hyd iawn?

5 4 3 2 1

Sgoriwyd yn uchel ar gyfer pob cwestiwn - o 100% i 98% ym mhob achos.

Dyma flas o'r sylwadau a derbyniwyd gan y cyfweleion Cymraeg:

'Mwynhad mawr oedd cael sgwrsio am y gorffennol a gwybod bydd yr hanes ar gof a chadw.'

'Wedi joio mas draw. Oedd hyn wedi dod a atgofion hapus oedd wedi digwydd blynyddoedd nol yn fy mywyd, pethach o ni wedi anghofio amdano nes dechre sharad.'

'Y swyddog wedi llwyddo i wneud imi deimlo'n gartrefol.'

'Roeddwn wedi mwynhau yn fawr iawn mynd yn nol dros yr amser hapus iawn yn y chwe degau.'

'Profiad ardderchog.'

#### **(ii) Y Gwirfoddolwyr:**

Gofynnwyd i bob gwirfoddolwraig fu'n cynorthwyo gyda'r cyfweld gynnig eu sylwadau (yn ddiennw) ar y profiad a'r prosiect. Dychwelwyd un ar ddeg ffurflen (6 yn Gymraeg a 5 yn Saesneg). Roedd pob sylw a dderbyniwyd yn gadarnhaol a chefnogol. Dyma flas ar y cwestiynau a rhai o'r sylwadau:

1. *Beth oedd eich barn am y sesiwn hyfforddiant?*

'Roedd y sesiwn hyfforddiant wedi ei gyflwyno yn ddealladwy ac yn effeithiol ac o fudd mawr i mi'n bersonol yn enwedig yr agwedd ymarferol.'

2. *Sut aeth y trefniadau ar gyfer recordio?*

'Hawdd trefnu apwyntiadau a dim traffethion o gwbl efo'r trefniadau - pawb yn edrych ymlaen at y sesiwn.'

3. *Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o recordio'r siaradwr(wyr)?*

'Yn fraint cael clywed yr hanesion, wnes i fwynhau'r profiad yn fawr iawn, roedden nhw yn ateb yn gwbl agored a llawn a gwnaeth hynny'r gwaith yn bleser pur.'

4. *Beth yw eich barn am y prosiect hwn?*

'Prosiect gwerthfawr a diddorol. Roedd y profiad o wrando ar hanes y merched yn un positif o ochr y siaradwyr ac o ochr y gwrandawr. Wedi llwyddo i roi llais i ferched anweledig. Bydd ymchwilwry dyfodol yn ein dyled.'

Yn yr un modd gofynnwyd i'r gwirfoddolwyrfu'n adysgrifo'n unig lenwi holiaduron gwerthuso. Dychwelwyd pedair ffurflen (3 Saesneg/1 Gymraeg). Dyma'r cwestiynau a rhai ymatebion:

1. *Sut aeth y trefniadau ar gyfer adysgrifio?*

'Cafodd y cyfarwyddiadau eu hegluro'n glir, ac aeth y trefniadau'n hawdd.'

2. *Sutfyddech chi'n disgrifio'r profiad o adysgrifio'r cyfweiliadau?*

'Dysgais i lawer am fywydau menywod yn y gorffennol.'

3. *Beth yw eich barn am y prosiect hwn?*

' Mae'n bwysig cael cofnod o adeg o hanes sy'n ami yn cael ei hanwybyddu.'

## ADRAN CH

### PROSIECTAU YCHWANEGOL

Cwblhawyd y prosiect gwreiddiol, gan gyrraedd yr holl dargedau erbyn diwedd Hydref 2014. Fodd bynnag, oherwydd i ni reoli'r gyllideb yn ofalus, roedd gennym danwariant o tua £9,000 (yn cynnwys £7,000 o arian wrth gefn) o'r brif gyllideb o £68,100 (£65,100 gan CDL + £3,000 oddi wrth yr Ashley Family Foundation).

At hyn roedd gennym £2,000+ yn ychwanegol o'r nawdd pellach - undebau Unite a Community Union a chyfraniadau aelodau AMC.

Felly gofynnwyd am ganiatad i CDL i wario'r cyllid dros ben i roi gwerth ychwanegol i'r prosiect (gweler isod) a chytunodd CDL y gellid gwneud hynny ar Hydref 29ain. Cadarnhawyd hynny gan Bwyllgor Rheoli AMC ar Dachwedd 6ed, 2014.

Dyma'r prosiectau ychwanegol:

1. Creu gwefan, yn ymgorffori'r metadata, adysgrifau yr holl gyfweiliadau, detholiad cynrychioliadol o'rffotograffau / dogfennau a gasglwyd, clipiau awdio a stori'au digidol.

Ymgwymerwyd a'r gwaith hwn gan Kate Sullivan, Swyddog Maes y gogledd, ar y cyd a [www.technoleg-taliesin.com](http://www.technoleg-taliesin.com). Gweler [www.lleisiaumenywodffatri.cymru](http://www.lleisiaumenywodffatri.cymru)

2. Cyfieithu crynodebau o'r cyfweiliadau Cymraeg - 60 cyfweiliad i gyd - i'w gwneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach ac ymchwilwyr. Ymgwymerwyd a'r gwaith hwn gan Swyddog Maes y de-orllewin, Susan Roberts. Ymgorfforwyd y rhain gyda'r adysgrifau gwreiddiol a rhoddwyd hwy ar y wefan hefyd.

3. Paratoi 25 clip awdio i'w rhoi ar y wefan. Ymgwymerwyd a'r gwaith hwn gan Marc Roberts a baratodd y clipiau awdio ar gyfer cyflwyniadau'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Gynhadledd Flynyddol yn ogystal. Mae adysgrifiadau o'r clipiau awdio a chyfieithiadau ohonynt (boed o'r Gymraeg neu'r Saesneg) ar y wefan hefyd.

4. (i) Creu arddangosfa ddigidol i'w harddangos e.e. mewn llyfrgelloedd, archifdai, amgueddfeydd, canolfannau cymdeithasol a.y.b. ac ar y wefan.

(ii) Creu stori'au digidol o'r cyfweiliadau a'r lluniau a gasglwyd i'w rhoi ar y wefan a'u hymgorffori yn yr arddangosfa ddigidol

Ymgwymerwyd a'r ddwy elfen hon o'r gwaith gan Swyddog Maes y de-ddwyrain, Catrin Edwards.

## **CWBLHAU'R PROSIECT**

I ddirwyn y prosiect i ben ac i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd penderfynwyd cynnal digwyddiad arbennig yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful, ar ddydd Mercher 25ain Mawrth, 2015. Dyma gyfle i lansio'r wefan newydd, i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol i'n noddwyr ac i swyddogion Archif Menywod Cymru, i gwrdd a nifer o'r siaradwyr yn yr ardal hon ac i ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at wneud y prosiect cyffrous hwn yn un mor llwyddiannus.